SEICOLEG

Ar ôl graddio mewn Seicoleg, fel arfer bydd gennych:

- Sgiliau ymchwilio gan gynnwys y gallu i gymhwyso safbwyntiau lluosog i faterion seicolegol sy'n ymwneud ag ystod o ddulliau ymchwilio, damcaniaethau, tystiolaeth a chymwysiadau.
- Sgiliau dadansoddi yn cynnwys nodi a gwerthuso patrymau cyffredinol mewn ymddygiad, gweithredu a phrofiad seicolegol, cynhyrchu ac archwilio damcaniaethau a chwestiynau ymchwil, ymgymryd ag astudiaethau empirig, sgiliau dadansoddi data gan ddefnyddio dulliau meintiol ac ansoddol, defnyddio offer seicolegol, cyfarpar labordy ac offerynnau seicometreg, a chymhwyso rhesymeg yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Sgiliau cyfathrebu gan gynnwys datblygu dadl rymus wedi'i chefnogi gan dystiolaeth berthnasol a bod yn sensitif i anghenion a disgwyliadau cynulleidfa.
- Sgiliau TG a thrin data, ac yn gyfarwydd â deall, dadansoddi a chyflwyno setiau data cymhleth.
- Sgiliau gweithio mewn tîm effeithiol. Drwy brosiectau ymchwil a gweithgareddau cwricwlaidd eraill.
- Sgiliau datrys problemau a rhesymu.
- Sgiliau rhyngbersonol, gan gynnwys bod yn sensitif i bwysigrwydd gwella cydweithrediad i hyrwyddo i'r eithaf effeithiolrwydd sgiliau unigol a geir mewn gwaith grŵp ac adeiladu tîm.
- Sgiliau dysgu gydol oes.

Cipolwg ar Seicoleg

Gwyddor empirig yw Seicoleg sy'n ceisio deall pam a sut mae pobl yn ymddwyn fel y gwnânt a chymhwyso'r wybodaeth honno mewn amrywiaeth eang o leoliadau. Mae'r ddisgyblaeth yn cwmpasu astudiaethau'n amrywio o arsylwi mecanweithiau nerfol sylfaenol i ddadansoddiadau o gysylltiadau dynol cymhleth. Gellir gweld rhagosodiadau seicoleg modern mewn bioleg ac athroniaeth, ond mae ei ddulliau ymholi wedi datblygu nid yn unig o'r disgyblaethau hyn ond o wyddorau naturiol, cymdeithasol a mathemategol eraill yn ogystal.

Mae seicoleg yn faes pwnc eang ond, beth bynnag yw'r tesun astudio penodol a lle bynnag y tarddodd ei ddulliau, mae'n ceisio dadansoddi ac esbonio ymddygiad mewn modd systematig, atgynyrchadwy. Mae cylch rhinweddol yn aml rhwng damcaniaeth a data empirig, a gall canlyniadau'r rheini gael eu mynegi mewn cymwysiadau i sefyllfaoedd addysgol, iechyd, diwydiannol/masnachol a sefyllfaoedd eraill. Yn ogystal â sgiliau a gwybodaeth pwnc, mae gan raddedigion seicoleg hefyd sgiliau cyfathrebu, rhifedd, gweithio mewn tîm, meddwl yn feirniadol, cyfrifiadura, dysgu ac ymchwilio'n annibynnol ynghyd â llawer mwy, sydd i gyd yn cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr. Oherwydd yr amrywiaeth eang o sgiliau generig a'r dull manwl o'u dysgu, ystyrir hyfforddiant mewn seicoleg yn ffordd ragorol o baratoi myfyrwyr ar gyfer nifer o yrfaoedd.

Sources: